

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1- Adran 6

Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

Adroddiad 2019

Cyngor Gwledig Llanelli

Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Cyngor Gwledig Llanelli yn darparu ystod o wasanaethau i'r gymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth.

Mae'r cyngor yn darparu un deg tri o adeiladau cymunedol sy'n darparu neuaddau cymunedol a chyfleusterau newid chwaraeon. Mae'n darparu ac yn cynnal a chadw saith parc hamdden lle chwaraeir ystod o chwaraeon megis rygbi, pêl droed, bowls a chriced yn rheolaidd.

Mae'r cyngor hefyd yn darparu ac yn cynnal a chadw un deg tro o ardaloedd chwarae i blant ac yn cyd berchen cyfleuster mynwent fawr- Mynwent Ardal Llanelli.

Mae'r cyngor yn y broses o drosglwyddo ardal dyfu gymunedol fawr oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ac yn gosod les cynnal i dir o gwmpas Cronfa Ddŵr Swiss Valley gyda Dŵr Cymru.

Mae'r cyngor yn cynnal a chadw dros bum deg milltir o lwybrau troed cyhoeddus ar draws yr ardal. Mae'r defnydd o'r rhain yn lleihau dibyniaeth ar gerbydau ar gyfer teithiau hanfodol megis cludo i'r ysgol etc.. ac yn darparu mynediad i deithiau cerdded hamdden mewn ardaloedd gwledig ar draws y rhwydwaith o lwybrau troed.

Mae'r cyngor yn darparu cymorth cymunedol trwy ei Swyddog Datblygu Cymunedol ymroddgar ac yn rhoi grantiau i brosiectau cymunedol yn ardal y cyngor.

Mae ardal ddaearyddol y cyngor tua 26.78 milltir sgwâr, gyda phoblogaeth o 22,800 ac yn cwmpasu canolfan drefol Llanelli. Mae ei ffiniau yn ymestyn o Aber Lluchwr yn y dwyrain i Borth Tywyn yn y gorllewin ac yn ymylu ar Gwm Gwendraeth yn y gogledd. Mae'r ardal yn cynnwys pentrefi ac ardaloedd Bynea, Cwmbach, Cynheidre, Dafen, Felin-foel, Pum Heol, Ffwrnes, Llwynhendy, Pont-henri, Pontiets (l'r de o'r rheilffordd), Pwll, Sandy a Swiss Valley.

Praesept ar gyfer 2019-20 yw £1,041,560.

Mae'r cyngor yn hyrwyddo'r egwyddor o gynaliadwyedd a bioamrywiaeth trwy fynd ar ôl golau cynaliadwyedd ac arferion cynaliadwy pryd bynnag mae'n bosibl.

Mae'r cyngor wedi ymgysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin a ffurfio partneriaeth gyda Chyngor Tref Llanelli gan gychwyn ar raglen trosglwyddo asedau i ddiogelu, sicrhau a chynnal ardaloedd chwaraeon, hamdden a chwarae i blant.

Mae'r cyngor wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac o ganlyniad wedi sefydlu Pwyllgor Llywio Argyfwng Amgylchedd a Hinsawdd fel ymateb i'r datganiad. Mae cylch gorchwyl y grŵp wedi'i anodi isod.

Adolygiad o sefyllfa'r cyngor parthed IPCC (Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd) lleihau'r targed o 2°C i 1.5°C codiad tymheredd byd eang.

Bwriad yr adolygiad:

Adolygu sefyllfa'r Cyngor parthed IPCC (Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd) ac argymhell sut y gall y cyngor gyfrannu tuag at y targed hwn yn y tymor byr, canolig a hir dymor.

Bydd y Grŵp yn ystyried y newidiadau posibl ac effeithiau cynhesu byd eang ar draws ardal weinyddol y cyngor.

Bydd yr adolygiad yn cynnwys casglu gwybodaeth oddi wrth ei weithgareddau ei hun wrth ddarparu gwasanaethau lleol ac ymgynghori gydag adnoddau eraill megis cyrff cynghori'r llywodraeth, gwefannau, sefydliadau partner, asiantaethau ac unigolion.

Adnabod y meysydd allweddol lle gall y cyngor gael effaith ar darged IPCC wrth gyflawni ei swyddogaethau cyflwyno gwasanaeth (uniongyrchol ac anuniongyrchol) a sut y gall y cyngor hefyd annog trigolion i gael effaith ar:

- a. Lleihau allyriadau carbon
- b. Defnyddio ynni yn fwy effeithiol
- c. Newid i danwydd carbon isel
- d. Paratoi ar gyfer newid hinsawdd

Hysbysir argymhellion y grŵp i Bwyllgor Polisi ac Adnoddau y cyngor ar gyfer eu hystyried.

Yn deillio o hyn caiff polisi, strategaeth a chynllun gweithredu Amgylchedd a Newid Hinsawdd ei fformaleiddio a'i gyflwyno ar gyfer ystyriaeth pellach gan y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau.

Adroddiad Camau Gweithredu

Y camau gweithredu a gyflawnwyd i:		Monitro gan:
<p>Sefydlu bioamrywiaeth ar draws pob lefel o wneud penderfyniadau, polisiau'r cyngor, cynllunio ac arferion gweithredu..</p>	<p>Datgan Argyfwng Hinsawdd a sefydlu tasglu Argyfwng Hinsawdd a bioamrywiaeth parthed lleihau IPCC o'r targed o 2°C i 1.5°C cynnydd tymheredd byd eang.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adlewyrchu'r ymrwymiad i fioamrywiaeth ac ardaloedd naturiol yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor. • Ymwreiddio ystyriaeth i fioamrywiaeth ac ôl troed carbon i brotocol caffael. Aseu ymrwymiad cyflenwyr a pholisiau parthed ôl troed carbon eu cynnyrch, gwasanaethau neu reolaeth busnes. . • Prynu ynni oddi wrth gyflenwyr Gwyrdd. • Lleihau'r defnydd o ynni a gwella effeithlonrwydd adeiladau. Rheolwyr Smart etc.. • Sylwadau'r Cyngor ar Geisiadau Cynllunio er cefnogaeth i fioamrywiaeth. • Ymgynghorai Gwarchod yr Arfordir • Ymateb i drwyddedau carthu tywod yn Aber Bae Caerfyrddin. 	<p>Ymrwymadau a wnaed mewn dogfennau, adroddiadau, agenda, polisiau a phrotocols</p> <p>Ystyriaeth i fioamrywiaeth wedi'i arddangos ymgob penderfyniad.</p>

<p>Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i aelodau a staff. • Cefnogi rhaglen Ymddiriedolaeth y Tywysog sy'n ymgymryd â phrosiectau bioamrywiaeth cymunedol, plannu, cynnal etc. • Annog y gymuned gyfan i wirfoddoli yng nghyd-destun cefnogi a hyrwyddo bioamrywiaeth a lleihau ôl troed carbon. • Datblygu gerddi tyfu cymunedol gyda mentrau eco/bioamrywiaeth • Hyrwyddo digwyddiadau cymunedol ar wefan a chyfrwng cymdeithasol- teithiau cerdded bywyd gwyllt, cefnogi grwpiau casglu sbwriel. • Darparu ardal claddu naturiol yn y fynwent. Annog egwyddorion claddu naturiol trwy'r gwasanaeth, hyrwyddo trwy'r wefan, trefnwyr angladdau a rhanddeiliaid eraill • Postio manylion am y camau gweithredu a gyflawnwyd i helpu bioamrywiaeth ar ein gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. 	<p>Trwy adborth oddi wrth aelodau'r Cyngor a thrigolion.</p> <p>Y nifer o bobol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau</p>
---	--	--

<p>Diogelu rhywogaethau chynefinoedd prif a</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli tir i glustogi ac uno ardaloedd cymdogol fel than o rwydweithiau ecolegol cydnerth. • Sicrhau nad oes effeithiau negyddol ar rhywogaethau gwarchoddedig a'r amgylchedd. • Rheoli coedwigoedd a gwrychoedd i annog bioamrywiaeth. • Plannu peillyddion naturiol lle bynnag mae'n bosibl • Lleihau neu waredu'r defnydd o chwynladdwyr. • Cynnal a chadw cofebau cerrig hanesyddol i warchod tyfiant cen. 	<p>Cofnodion o safleoedd a rhywogaethau a ddiogelwyd.</p>
<p>Adfer a chreu cynefinoedd a rhydweithiau ecolegol cydnerth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Plannu blodau peillio cyfeillgar brodorol a phlanigion i'w plannu allan. • Defnyddio planhigion blynyddol gwir (peillyddion) yn unig mewn cynlluniau plannu. • Cyflwyno cyfleoedd peillio newydd mewn parciau, manau amwynder/chwaraeon, neuaddau a mynwentydd . • Rheoli ardaloedd coediog a chyflwyno plannu coed a gwrychoedd newydd lle bynnag mae'n bosibl.. 	<p>Cynyddu ardal cynefinoedd. Gwell bioamrywiaeth .</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Dylunio tirweddu mewn amrywiol safleoedd i annog poblogaeth wyllt amrywiol, yn enwedig pryfed peillio megis gwenyn a ieir bach yr haf. • Creu ardaloedd bioamrywiaeth i ddarparu manau nythu a gaeaf gysgu i annog ystod o rywogaethau. • Newid trefn torri gwair a chynnal a chadw ymhob safle trwy leihau amllder y torri i annog blodau gwylt a phlanhigion peillio cyfeillgar eraill, hefyd darparu gorchudd i famaliaid ac ymlusgiaid bach. • Cynyddu manau ymhob safle i gefnogi bioamrywiaeth a lleihau ôl troed carbon. 	
<p>Taclo ffactorau negyddol; e.e. lleihau llygredd, defnyddio toddiannau naturiol, mynd i'r afael â rhywogaeth oresgynnol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Polisiau caffael cynaliadwy • Lleihau neu waredu'r defnydd o chwynladdwyr i lle mae'n gwbl angenrheidiol megis rheoli rhywogaethau oresgynnol megis <i>Japanese Knotweed</i> • Defnyddio offer a chyfarpar mwy amgylchedd gyfeillgar. Ystyried rhedeg ar fatri. 	<p>Dogfennau polisi, adroddiadau, cofnodion y cyngor</p> <p>Cyfanswm o chwynladdwyr a brynir ac a ddefnyddir-cofnodion defnyddio.</p> <p>Polisiau caffael</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae newid trefn torri yn arbed tanwydd. Y defnydd o beiriannau, teithio etc. Lleihau carbon.. • Monitro'r defnydd o gerbydau, lleihau technegau gyrru gwael, tanwydd gwastraff, teithiau diangen neu heb eu trefnu'n iawn, lleihau teithiau. • Ystyried cerbydau yn rhedeg ar fatri. • Ail gylchu gwastraff. 	<p>Rhestrau gwaith amserlenni, tracio/monitro cerbydau</p>
<p>Gwella a rhannu tystiolaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu â'r Swyddog Bioamrywiaeth yng Nghyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau y defnydd o arfer gorau ac i gynyddu gwybodaeth am faterion lleol. • Meincnodi gyda fforwm rheolwyr mynwentydd, awdurdodau eraill, meincnodi Cenedlaethol trwy ICCM. 	
<p>Cefnogi capasiti a/neu sefydliadau eraill</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogaeth datblygiad cymunedol yn ystyried bioamrywiaeth ac ôl troed carbon. • Cefnogi casglu sbwriel a drefnwyd, darparu benthyg cyfarpar gyda phartneriaid eraill a grwpiau gwirfoddol. • Yn y broses o drosglwyddo Cronfa Ddŵr Swiss Valley, bioamrywiaeth fawr ac amrywiol. Diogelu, seilwaith, bioamrywiaeth a mynediad i'r cyhoedd i weithgareddau awyr agored.. • Ystyried gofyn i unrhyw sefydliad sy'n derbyn grant oddi wrthym i arddangos sut y bydd eu prosiect yn cyfrannu at gefnogi iechyd a lles, bioamrywiaeth a'r effaith ar ôl troed carbon. 	<p>Ffurio partneriaethau i gyflwyno budd bioamrywiaeth.</p>

Adolygiad a ddyletswydd s6

- Beth sy wedi gweithio'n dda?
- Mae creu ardaloedd blodau gwyllt a phlanhigion yn y fynwent wedi bod yn llwyddiant, yn enwedig gan ei fod wedi profi'n atyniadol i'r cyhoedd yn ychwanegol at helpu bioamrywiaeth.. Hefyd, mae arbed costau wedi digwydd trwy leihau torri gwair. Mae mannau claddu naturiol yn y fynwent hefyd wedi profi'n boblogaidd.
- Beth oedd y rhwystrau?
- Mae technoleg ar gyfer offer a chyfarpar ar fatri yn dal yn ei fabandod. Mae'r cyfarpar sydd ar gael ar hyn o bryd yn gyfyng o ystyried natur gryf yr amgylcheddau gwledig yr ydym yn gweithio ynddynt. Eisoed mae yna fflyd enfawr o gerbydau disel. Mae'r cyhoedd am weld pob ardal yn 'daclus'. Mae angen rhaglen addysgu a hysbysu.
- Beth fyddwch chi'n newid?
- Gweithio gyda'r Swyddog Bioamrywiaeth Lleol i gael cyngor, mwy o feincnodi, mynychu seminarau etc.. Mwy o ryngweithio a gwybodaeth i'r cyhoedd. Parhau i chwilio am ddatrysiadau addas i gefnogi mentrau'r cyngor.

Pryd caiff y ddyletswydd s6 ei fonitro a chynllun s6 ei adolygu?

Caiff y ddyletswydd ei fonitro trwy Bwyllgor Llywio Amgylchedd ac Argyfwng Hinsawdd y cyngor fydd wedyn yn adrodd nôl i'r cyngor ar lwyddiant neu fel arall y camau gweithredu a gyflawnwyd trwy'r protocol rheoli a hysbysu statudol arferol y cyngor.

Adolygir y cynllun s6 yng ngoleuni'r adroddiadau hyn ac unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth arall a fydd ar gael i'r cyngor. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, does dim un amser na dyddiad penodol wedi'i osod i adolygu'r cynllun, ond fe wneir hyn o fewn y chwe mis nesaf.